Nodi newid i wella gwasanaethau tai a’i weithredu

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â nodi pryd mae angen newid i wella gwasanaethau tai neu ymateb i ffactorau megis polisi neu'r amgylchedd masnachol. Mae'n bwysig ymgynghori â rhanddeiliaid, megis cwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaethau neu unrhyw un arall y gallai'r newid effeithio arnynt. Mae hefyd yn cynnwys nodi ffactorau sy'n gyrru newid, rhoi newid ar waith a monitro ei effeithiau. Bydd rhan o hyn yn cynnwys adolygu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn berthnasol o hyd a bod modd eu cyflawni.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cael y wybodaeth ddiweddaraf am dai ac eiddo masnachol a nodi'r hyn sy'n gyrru newid mewnol ac allanol ac sy'n effeithio ar wasanaethau eich sefydliad
2. ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaethau tai, i nodi effaith bosibl y newid arfaethedig
3. defnyddio ystod o wahanol sgiliau ymgynghori a thrafod sy'n addas i'r gynulleidfa darged ar gyfer yr ymgynghoriad
4. adolygu canfyddiadau eich ymgynghoriad i nodi materion sy'n effeithio ar roi newid ar waith ac adolygu eich cynlluniau sefydliadol
5. cynllunio'r broses o roi newid ar waith, gan ystyried gofynion cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaethau tai
6. cadarnhau bod cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaethau tai yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol cyfnod y broses
7. cael y cymorth angenrheidiol ar gyfer eich cynlluniau gan gydweithwyr a rhanddeiliaid perthnasol
8. ailedrych ar bolisïau, gweithdrefnau ac amcanion sefydliadol perthnasol sy'n ymwneud â'r newidiadau arfaethedig
9. rhoi strategaethau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol diwygiedig ar waith fel y bo'n briodol
10. rhoi ffyrdd newydd o weithio ar waith sy'n bodloni gofynion y newidiadau y cytunwyd arnynt
11. cael adborth gan randdeiliaid gan gynnwys cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaethau ac adolygu effaith newid arnynt
12. nodi'r gofynion hyfforddi fel deilliant newid a chadarnhau yr eir i'r afael â'r rhain

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y ffynonellau gwybodaeth perthnasol ar gyfer cael y wybodaeth ddiweddaraf am y tai a'r amgylchedd masnachol
2. sut i adnabod ac asesu'r ffactorau sy'n gyrru newid mewnol ac allanol ac sy'n effeithio ar wasanaethau eich sefydliady gwahaniaeth rhwng gyrwyr newid mewnol ac allanol a'r effaith ar wasanaethau eich sefydliad
3. sut i asesu'r effaith bosibl y gallai newid ei chael ar gynllunio a strategaeth ar gyfer tai yn y dyfodol yn ogystal ag amcanion eich sefydliad
4. rhanddeiliaid eich sefydliad a dulliau ymgynghori perthnasol
5. y dulliau a'r modelau ar gyfer cynllunio newid a'u rhoi ar waith yn eich sefydliad
6. pwysigrwydd cyfathrebu wrth roi newid ar waith a dulliau cyfathrebu addas
7. sut i drafod gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau newid
8. sut i nodi, dadansoddi a blaenoriaethu materion y nodwyd eu bod yn effeithio ar roi newid ar waith
9. pam y dylai'r strategaeth ar gyfer tai gyd-fynd â'r amgylchedd y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo
10. y dulliau adolygu strategaethau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol a sut i nodi lle mae angen diwygio
11. sut i nodi ble byddai ffyrdd newydd o weithio yn helpu i roi newid ar waith
12. sut i adolygu effaith newid, pwy i'w gynnwys a'r amserlenni ar gyfer ymgymryd â hyn
13. sut i nodi gofynion hyfforddi fel deilliant newid a dulliau ar gyfer mynd i'r afael â hyn

Nodi newid i wella gwasanaethau tai a'i weithredu

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2019
Indicative Review Date	Ionawr 2024
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTH422
Galwedigaethau perthnasol	Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr; Cynorthwy-ydd Tai; Cynorthwy-ydd Cymdogaeth; Gweinyddwr Tai; Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo; Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio); Trafodwr Gosod Llety; Cynorthwy-ydd Refeniw; Cynorthwy-ydd Atgyweirio
Cyfres/Set	Tai
Geiriau Allweddol	eiddo; ymchwilio; delio; torri cytundeb; llety; tenantiaeth; trwydded; lesddeiliad; cytundebau; cwsmeriaid; dogfennaeth; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; diogel; trefnu; yr amgylchedd; gwasanaethau; masnachol; cwsmeriaid;